**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

19 Mawrth 2024

Annwyl Julie

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rhentwyr (Diwygio)

Diolch am roi tystiolaeth i'm Pwyllgor ar 11 Mawrth 2024 mewn perthynas â Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rhentwyr (Diwygio).

Yn ystod y sesiwn, nodwyd bod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU (Cofnod y Trafodion, paragraffau 70-73), ac fe wnaethoch ymrwymo (Cofnod y Trafodion, paragraff 87) i ddarparu amserlen ymgysylltu i'r Pwyllgor ar faterion yn ymwneud â'r Bil.

Byddem yn ddiolchgar pe gallai'r amserlen hon ddechrau gydag unrhyw ymgysylltiad â Llywodraeth y DU *cyn* cyflwyno'r Bil a gorffen gyda'r cyswllt diweddaraf. Byddai'n ddefnyddiol hefyd pe gallai'r amserlen honno gynnwys ymgysylltiad arferol a phenodol rhwng Gweinidogion, a hefyd rhwng swyddogion, pan gafodd materion perthnasol eu codi neu eu trafod. Byddai gwybodaeth am ohebiaeth ffurfiol gan Weinidogion hefyd yn ddefnyddiol.

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn diwedd y dydd ar 10 Ebrill 2024.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd